Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

# Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

## Penodi Aelod Newydd

## Dyddiad Cau: 03/04/20

The Commissioner for Public Appointments

**Cynnwys**

Gwneud cais

Atodiad A: Cefndir y rôl

Atodiad B: Rôl yr Aelod

Atodiad C: Y broses ddethol

**Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru**

**Gwneud cais**

Diolch am fynegi diddordeb mewn cael eich penodi'n aelod newydd o Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (y Grŵp Fframwaith). Sefydlwyd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ym mis Mehefin 2014 i helpu gyda'r gwaith o weithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

Mae Grŵp Fframwaith Cymru yn atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru, ceidwaid da byw, perchenogion anifeiliaid eraill a chynrychiolwyr y diwydiant, ac mae'n mynd i'r afael â'r holl ystod o heriau sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles anifeiliaid Mae'r aelodau'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o godi ac ystyried materion newydd a allai effeithio ar gyflawni prif ganlyniadau'r Fframwaith. Maent yn herio polisïau newydd a pholisïau sydd wrthi'n cael eu datblygu, yn adolygu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni canlyniadau, yn hwyluso ac yn symleiddio'r broses o rannu negeseuon allweddol â sefydliadau yn y diwydiant a grwpiau o gynrychiolwyr, ac yn darparu cysylltiadau â'r gymuned amaethyddol a gwledig ehangach.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr Atodiadau am gefndir y penodiad, ynghyd â disgrifiad o'r rôl a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile0/appcentre3/brand2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill yr ydych yn eu hanfon, drwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais.

I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho **datganiad personol** a **CV** i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

**Datganiad Personol**
Y datganiad personol yw'ch cyfle chi i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol ym manyleb y person, drwy ddarparu tystiolaeth ac enghreifftiau penodol.

Ni ddylai'ch ymateb fod yn fwy na 4 ochr o A4.

**Curriculum Vitae (CV)**
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu'ch swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol sydd gennych ar hyn o bryd neu a fu gennych yn y gorffennol.

**Amserlen fras**
Dyddiad Cau: 03/04/20 am 16:00

Cyfweliadau: Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos a fydd

yn dechrau ar 27/04/20 er bod rhywfaint hyblygrwydd o ran y dyddiadau.

**Datganiad Amrywiaeth**
Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn annog amrywiaeth eang o unigolion i wneud cais i fod yn aelodau o gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

**Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl**
Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn gyfle ichi nodi unrhyw anghenion neu offer penodol y gallai fod ei angen arnoch os cewch eich gwahodd i gyfweliad.

**Manylion Cyswllt:**
Am ragor o wybodaeth am rôl y Grŵp Fframwaith a rôl aelod, cysylltwch â:

Emily Lay – Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Ffôn: 03000 253853
E-bost: Emily.Lay@llyw.cymru

Alexandra Jones – Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Ffôn: 03000 258621
E-bost: Alexandra.Jones030@llyw.cymru

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch wrth ichi wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â PublicAppointments@llyw.cymru / 03000 255454.

**Atodiad A**

## Y Cefndir

### Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Lansiwyd Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ym mis Gorffennaf 2014 ac mae ynddo gynllun cyffredinol ar gyfer cyfnod o ddeng mlynedd i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid. Mae, ar yr un pryd, yn ein helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac yn cyfrannu at yr economi a'r amgylchedd.

Mae'r Fframwaith yn ymdrin ag iechyd a lles anifeiliaid a ffermir, anifeiliaid anwes, anifeiliaid sy'n gweithio, anifeiliaid cadw sy'n gysylltiedig â chwaraeon a dyframaethu. Mae'r Fframwaith hefyd yn berthnasol i anifeiliaid gwyllt os yw'r camau a gymerwn yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles neu os oes perygl y gallai bywyd gwyllt drosglwyddo clefydau i anifeiliaid eraill neu i bobl.

**Mae'r Fframwaith yn pennu pum canlyniad strategol:**

- Mae gan Gymru anifeiliaid iach a chynhyrchiol
- Mae gan anifeiliaid yng Nghymru ansawdd bywyd da
- Mae gan bobl ffydd a hyder yn y ffordd y caiff bwyd ei gynhyrchu ac yn y ffordd y caiff iechyd y cyhoedd ei ddiogelu
- Mae gan Gymru economi wledig ffyniannus
- Mae gan Gymru amgylchedd o ansawdd uchel

Gallwch weld copi o'r cynllun yma:

**https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-01/animal-health-and-welfare-framework.pdf**

### Cynllun Gweithredu 2019-20

Mae Cynllun Gweithredu 2019-20 yn dangos ein bod yn parhau'n ymrwymedig i fwrw ymlaen â blaenoriaethau allweddol o ran iechyd a lles anifeiliaid er gwaethaf yr ansicrwydd a'r pwysau cynyddol yn sgil y trafodaethau sy'n gysylltiedig â Brexit.

Caiff ein blaenoriaethau allweddol eu hamlinellu o dan themâu allweddol Perchenogaeth Gyfrifol, Atal Clefydau a Dileu Clefydau, sy'n rhan o themâu cyffredinol Cynllunio Iechyd Anifeiliaid, Bioddiogelwch ac Adnabod Anifeiliaid.

Rhai o flaenoriaethau eleni yw mynd i'r afael â cham nesaf y Rhaglenni Dolur Rhydd Feirysol Buchol, Clafr y defaid a Dileu TB Gwartheg, a hefyd parhau i gyflawni rhwymedigaethau statudol er mwyn diogelu'r gadwyn fwyd ac iechyd y cyhoedd a hyrwyddo perchenogaeth gyfrifol.

Mae cwmpas y Cynllun Gweithredu yn un eang, ond drwy gydweithio, byddwn yn parhau i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid, yn hyrwyddo da byw iach yng Nghymru, ac yn diogelu iechyd pobl, yr amgylchedd a'r economi leol.

**Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru**

**Gallwch weld copi o'r Cynllun Gweithredu yma:**

**https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/fframwaith-iechyd-a-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2019-2020.pdf**

## Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Sefydlwyd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ym mis Mehefin 2014 er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

Mae Grŵp y Fframwaith yng Nghymru yn atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru, ceidwaid da byw, perchnogion anifeiliaid eraill a chynrychiolwyr y diwydiant, ac mae'n mynd i'r afael â'r holl ystod o heriau sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r aelodau'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o godi ac ystyried materion newydd a allai effeithio ar gyflawni prif ganlyniadau'r Fframwaith. Maent yn herio polisïau newydd a pholisïau sydd wrthi'n cael eu datblygu, yn adolygu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni canlyniadau, yn hwyluso ac yn symleiddio'r broses o rannu negeseuon allweddol â sefydliadau yn y diwydiant a grwpiau o gynrychiolwyr, ac yn darparu cysylltiadau â'r gymuned amaethyddol a gwledig ehangach.

Rhoi cyngor y mae'r Grŵp yn hytrach na gwneud penderfyniadau ac nid oes ganddo'r ymreolaeth i wneud penderfyniadau ar sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu, i gadarnhau Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chyrff cyflenwi, i gymeradwyo cynlluniau wrth gefn nac i gymeradwyo cyflwyniadau. Bydd aelodau yn gwasanaethu fel unigolion ac ni fyddant yn cynrychioli unrhyw sefydliadau. Ni fydd hawl gan yr aelodau i enwebu rhywun arall i fod yn bresennol yn eu lle.

## Cefnogaeth

Darperir Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn Llywodraeth Cymru.

**Atodiad B**

## Penodi Aelod Newydd o Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

### Disgrifiad o'r Rôl

Fel aelod o Grŵp Fframwaith Iechyd ac Anifeiliaid Cymru, disgwylir ichi weithio fel rhan o dîm sefydledig i helpu i weithredu ac i gyflawni Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Dyma elfennau allweddol y rôl:

- codi ac ystyried materion newydd a allai effeithio ar gyflawni'r canlyniadau strategol yn Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
- ystyried sut i gyflawni canlyniadau a blaenoriaethau, sy'n arbennig o bwysig yn yr hinsawdd bresennol, ac a fydd hefyd yn bwysig yn y dyfodol, o ystyried y pwysau ar adnoddau
- herio polisïau newydd a pholisïau sydd wrthi'n cael eu datblygu
- cysylltu â'r diwydiant a chael gwybodaeth ganddo er mwyn llywio'n penderfyniadau'n well
- sicrhau bod cynnydd yn cael ei adolygu'n barhaus a nodi, cyflawni a, lle y bo angen, hwyluso gwelliannau a phrosiectau
- hwyluso a symleiddio'r broses o gyfleu negeseuon allweddol a'r llif gwybodaeth fel rhan o strategaeth gyfathrebu ehangach
- sefydlu a chynnal cysylltiadau â sefydliadau yn y diwydiant a grwpiau sy'n eu cynrychioli, yr economi amaethyddol a gwledig ehangach, yn ogystal â meysydd megis iechyd pobl, addysg, trechu tlodi etc
- bod yn gynrychiolwyr ar ran y Grŵp − gall aelodau fod yn llefaryddion ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid.

### Manyleb y Person

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos y sgiliau penodol, y profiad a'r arbenigedd sydd ganddynt mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid. Dylai ymgeiswyr ystyried elfennau allweddol y rôl, fel y manylir arnynt uchod, a darparu tystiolaeth i ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol.

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno penodi tri unigolyn, o amrywiaeth o sectorau a meysydd, a all ddangos bod ganddynt y sgiliau allweddol a ganlyn:

### Meini Prawf Hanfodol

- Gwybodaeth am safonau lles anifeiliaid a sut y maent yn berthnasol i Gymru, ac ymrwymiad i'w gwella'n gyson
- Gwybodaeth am yr heriau sy'n wynebu iechyd anifeiliaid yng Nghymru, a dealltwriaeth ohonynt
- Dealltwriaeth o'r diwydiant da byw yng Nghymru a/neu o'r sector anifeiliaid anwes neu'r sector ceffylau

- Rhwydwaith sefydledig o gysylltiadau y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo ac i rannu gwaith y grŵp ac i rannu negeseuon allweddol Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO)
- Y gallu i fod yn llysgennad ar ran y Grŵp Fframwaith, gan gydweithio â rhanddeiliaid newydd a chryfhau cysylltiadau gyda'r rhanddeiliaid presennol
- Y gallu i rannu negeseuon allweddol a safbwyntiau'r diwydiant a grwpiau sy'n ei gynrychioli er mwyn dylanwadu ar waith datblygu polisi.

**Meini Prawf Dymunol**

- Y gallu i feddwl mewn ffordd arloesol, i herio mewn ffordd adeiladol pan fo hynny'n briodol, ac i gefnogi diwylliant o newid.
- Dealltwriaeth o'r Agenda ehangach ar Iechyd a Lles Anifeiliaid mewn gwledydd eraill, sut y mae'n effeithio ar yr agenda sydd gennym yng Nghymru, a'r cysylltiadau rhwng yr agendâu hynny
- Y gallu i weithio'n dda fel rhan o grŵp amrywiol o aelodau, gan gydnabod y safbwyntiau a'r buddiannau gwahanol sydd gan ystod o'r sectorau a gynrychiolir
- Gwerthfawrogiad o werthoedd datblygu cynaliadwy fe y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Y gallu i ystyried materion strategol a nodi eu goblygiadau yn y tymor byr a'r tymor hir
- Cefndir a dealltwriaeth o waith ymchwil a datblygu ym maes iechyd a lles anifeiliaid.

**Y Gymraeg**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu ac ehangu sgiliau dwyieithog o fewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr a all ddangos eu bod yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r rhestr ganlynol o ofynion iaith yn cynrychioli asesiad gwrthrychol gan y corff recriwtio o'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r swydd benodol hon.

Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.

**Ffeithiau allweddol am y swydd**

<u>Telerau'r Penodiad</u>

- Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, fydd yn penodi.

<u>Hyd y Penodiad</u>

- Penodir am gyfnod o dair blynedd.

<u>Dyddiad Dechrau</u>

- 1 Mehefin 2020 − dyddiad cyfarfod cyntaf y Grŵp Fframwaith ar ôl ichi gael eich penodi i'w gadarnhau

**Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru**

Ymrwymiad Amser

- Bydd disgwyl i'r Cadeirydd ac aelodau'r Grŵp Fframwaith fod ar gael ar gyfer o leiaf bedwar cyfarfod y flwyddyn. Dylid neilltuo diwrnod ar gyfer pob cyfarfod a diwrnod arall i baratoi cyn pob cyfarfod. Disgwylir y bydd hefyd ddiwrnodau eraill yn ôl y galw ac amcangyfrifir y gallai hynny olygu 12 diwrnod ychwanegol y flwyddyn. Felly, bydd rhaid ymrwymo o leiaf oddeutu 20 diwrnod y flwyddyn i'r rôl.

Lleoliad y Cyfarfodydd

- Cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Fframwaith yng Nghaerdydd fel arfer. Fodd bynnag, gall fod achlysuron pan fydd gofyn mynd i gyfarfodydd mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Tâl cydnabyddiaeth

- Rhoddir tâl cydnabyddiaeth o £92 y dydd am wneud y swydd a chaiff y tâl cydnabyddiaeth ei dalu fesul cyfarfod.

- Telir £92 y dydd i aelodau. Ystyrir aelodau yn ddeiliaid swydd at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, bydd rhaid talu treth ar y taliad o dan Adran 62 o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 a bydd yn rhaid talu cyfraniadau Dosbarth 1 Yswiriant Gwladol. Tynnir y symiau hyn drwy system gyflogres Llywodraeth Cymru a thelir y ffi net i ddeiliad y swydd.

Treuliau

- Bydd unrhyw dreuliau teithio a chynhaliaeth a ysgwyddir wrth fynd i gyfarfodydd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru neu wrth fynd ar ymweliadau ar ran Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, yn cael eu had-dalu gan Lywodraeth Cymru o fewn y terfynau cydnabyddedig.

Pwy sy'n Gymwys

- Dylai'r ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd. Yn benodol, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru pe byddai'n dod i'r amlwg ar ôl iddynt gael eu penodi.

- Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod bod yn aelod o Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn swydd sy'n eich anghymhwyso rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.
  http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made

Gwrthdaro Buddiannau

- Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel aelod o Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl.

- Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

- Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma: http://www.bl.uk/aboutus/Llywodraethu/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf

**Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru**

**Atodiad C**

## Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch felly eich bod yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Christianne Glossop, y Prif Swyddog Milfeddygol, a bydd Stephen James, Cadeirydd Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, ynghyd ag Aelod Annibynnol o'r Panel, yn bresennol hefyd.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai'ch cais gael ei roi ar "restr hir", cyn iddo gael ei anfon ymlaen i'w ystyried gan y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer. Mewn sefyllfa o'r fath, dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos eu bod yn bodloni orau y meini prawf sydd i'w gweld ym manyleb y person, fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Bydd y system Penodi yn anfon e-bost atoch i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Bwriedir cynnal y cyfweliadau yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y rôl.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n 'addas i'w penodi' yn cael eu hargymell i Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai Ysgrifennydd y Cabinet ddewis cyfarfod ag un neu fwy o'r ymgeiswyr hynny cyn penderfynu.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n aelod o Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Bydd hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn sylweddoli ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am swydd a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O'r herwydd, bydd

y llythyr yn rhoi manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais, os byddwch yn dymuno gwneud hynny.

**Os na fyddwch yn hollol fodlon**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os byddwch am gwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, dylech gysylltu â PublicAppointments@llyw.cymru.